*These notes refer to the Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (c.7)*

# MESUR IECHYD MEDDWL (CYMRU) 2010

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a gafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Tachwedd 2010 a'i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 15 Rhagfyr 2010. Cawsant eu paratoi gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono.